# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2010

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams - Cadeirydd<br><br>Y Cynghorwyr T. Lloyd Hughes, R. Dylan Jones, Raymond Jones, G. O. Parry MBE, Eric Roberts, P. Rogers, J. Penri Williams, Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW:** | Rheolydd Gwasanaeth Adnoddau Dynol,<br>Pennaeth Gwasanaeth (TG)<br>Ymgynghorydd Perfformiad (NE)<br>Rheolwr Sgriwtini<br>Swyddog Sgriwtini (CT)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA). |
| **YMDDIHEURIADAU** | Y Cynghorwyr C. L. Everett (Aelod Portffolio Eitem 3), D. R Hughes, Eric Jones, Mr Keith Roberts. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd T. H. Jones (Aelod Portffolio Cyllid) |

1

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan unrhyw Aelod na Swyddog yng nghyswllt unrhyw eitem a drafodwyd.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn rhai cywir:

4 Tachwedd 2010
16 Tachwedd 2010 (Galw penderfyniad i mewn) gyda'r cymal:-

(i) y dylai'r cynnig gan y Cynghorydd John Penri Williams fod am "barcio am ddim *am y ddwy awrgyntaf* ar ddydd Sul*".*

(ii) dywedodd y Cynghorydd Selwyn Williams ei fod wedi dweud wrth y gadair fod ganddo ddiddordeb oedd yn gwrthdaro o safbwynt parcio oherwydd ei fod yn Gadeirydd Ffederasiwn Busnesau Bychain Ynys Môn.

**Yn codi o Gofnodion 4 Tachwedd 2010**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn i'r Pennaeth Gwasanaeth (Polisi) gynnal ymchwiliad i weld a ddylid dod â'r Cynllun Rheoli Asedau i'r Pwyllgor hwn ar gyfer Craffu yn hytrach nag i'r Pwyllgor Sgriwtini Datblygu Economaidd. Nid oedd wedi derbyn ateb hyd yn hyn ond byddai'n disgwyl am ymateb erbyn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn.

**3 CYNLLUN BUSNES CORFFORAETHOL 2010/11**

Cyflwynwyd a nodwyd er gwybodaeth - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Polisi yn hysbysu'r Aelodau o'r cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella a bennwyd yng Nghynllun Busnes Corfforaethol y Cyngor am 2010/11. Nododd yr Ymgynghorydd Perfformiad y rhesymau am unrhyw lithriad sydd wedi golygu bod yr amserlenni gwreiddiol wedi newid.
Codwyd y pwyntiau canlynol:-

- Y flaenoriaeth isel roddir i'r Strategaeth Rheoli Risg;

- Diffyg gwybodaeth ynglyn â systemau gwella - dywedodd y Swyddog bod hwn wedi ei gynnwys yn y brif ddogfen - nid oedd y papurau a gylchredwyd gyda'r rhaglen ond yn rhan o'r Prif Gynllun Busnes Corfforaethol.
- Ymatebodd y Swyddog i gwestiwn ynglyn â phwy sydd ar hyn o bryd yn defnyddio'r system Ffynnon.
- Nodwyd y mater o droedbrint carbon e.e. goleuadau'n cael eu gadael ymlaen yn hwyr mewn swyddfeydd/ystafelloedd gwag, dwr yn dripian o dapiau - cadarnhaodd y Swyddog y byddai'n cyfeirio'r materion at yr Adain Eiddo.

**PENDERFYNODD y Pwyllgor:-**

**(i) y dylid nodi'r Strategaeth Rheoli risg fel risg uchel a bod y Pwyllgor hwn yn mynegi ei barodrwydd i gynnal ymchwiliadau i sut y mae Cynghorau eraill yng Nghymru yn mynd i'r afael â'r mater pwysig hwn ac yn ei flaenoriaethu;**

**(ii) bod cynrychiolydd o Gyngor Sir Castell-nedd Port Talbot yn cael ei wahodd i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn y dyfodol i roi cyflwyniad ar systemau'n ymwneud â newidiadau effeithlonrwydd;**

**(iii) bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r meincnod Gostwng Carbon er mwyn ystyried ffyrdd o fonitro a gwella'r lefel.**

## 4 DIWEDDARIAD ADNODDAU DYNOL

Cyflwynwyd i'w ystyried - adroddiad yn diweddaru'r Aelodau ar bwyntiau penodol godwyd gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 30 Medi 2010.

Cafwyd gwybodaeth gan y Rheolwydd Adnoddau Dynol ar y rhaglen waith TG/AD Northgate arfaethedig am y chwe mis sydd i ddod, ar y System Oriau Hyblyg, Ymgynghorwyr Asiantaethau Staff, Materion Iechyd Corfforaethol ac Iechyd Galwedigaethol a Rheoli Doniau a Lefelau Salwch.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys a bod mwy o wybodaeth ar absenoldeb salwch yn cael ei chyflwyno I gyfarfod mis Mawrth o'r Pwyllgor hwn er mwyn nodi meincnodau mewn perthynas a chyfeiriadau Iechyd Galwedigaethol.**

## 5 STRATEGAETH TECHNOLEG GWYBODAETH

*Cadeiriwyd yr eitem hon gan yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd R. Dylan Jones.*

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (TGCh) ynghyd â'r Strategaeth TGCh i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (TG) bod y Strategaeth wedi'i dylunio i gefnogi strategaethau corfforaethol, y rhaglen adfer a chynlluniau busnes gwasanaeth/adrannol. Y mae hefyd yn cyfeirio at y rhaglen gydweithredu ac fe all newid i adlewyrchu'r rhaglen honno yn y dyfodol. Roedd y Grwp Strategol TGCh (a oedd yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth) wedi cytuno mai tair blynedd fyddai oes hiraf y strategaeth o ystyried galwadau tymor byr y rhaglen adfer a'r datblygiadau cyflym iawn o fewn y farchnad TGCh. Cytunwyd ar y strategaeth gyda'r Deilydd Portffolio, y Cynghorydd T. H. Jones. Nid yw'r ddogfen hon yn ffurfio rhan o'r Llawlyfr Safle TGCh ehangach sy'n cynnwys yr holl faterion TGCh o fewn yr awdurdod. Byddai'r Strategaeth yn cael ei chyflwyno i'r Tim Rheoli ym mis Ionawr 2011.

Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan Aelodau, ymatebodd y Pennaeth Gwasanaeth (TGCh) fel a ganlyn:-

- Ers 1996, yr adran hon oedd yn dal y gyllideb refeniw ar gyfer cynhyrchion TGCh fel peiriannau argraffu ac ati. Byddai'n disgwyl i'r mater hwn gael ei ystyried gan y Tîm Rheoli'n eithaf buan a'r Adolygiad Cymheriaid TGCh sy'n dechrau fis Ionawr 2011;

- Roedd y Pennaeth Gwasanaeth yn amcangyfrif fod cyllidebau datganoledig TGCh tua £400k ond pwysleisiwyd mai amcangyfrif oedd hwn ac nid ffigwr pendant.
- Bu diffyg adnoddau yn broblem ond roedd dwy fid lwyddiannus wedi'u cyflwynoi'r Gronfa Adeiladu Capasiti am Swyddog E Ddemocratiaeth a Rheolwr Prosiect. Mae'r Adran yn parhau i fod angen Technegwyr. Byddai'n gobeithio bod cefnogaeth gorfforaethol ar gael fel y gallai rhai staff TGCh adrannol gael eu canoli i helpu ei adran o gyda'r gwasanaethau y maent yn gallu eu darparu. Bydd hyn hefyd yn cael sylw yn yr Adolygiad Cymheiriaid TGCh.
- Mae parhad busnes yn cael sylw ar hyn o bryd fel rhan o'r trafodaethau Cydweithredu gyda'r posibilrwydd o sefydlu Canolfan Adfer Ranbarthol.
- O safbwynt systemau/meddalwedd anghymharus - mae trafodaethau rheolaidd yn cael eu cynnal gyda golwg ar sicrhau bod unrhyw systemau newydd sy'n cael eu prynu a'u gweithredu yn rhai fydd yn cyfateb i'w gilydd.
- Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o gysylltu gyda'r Adran TGCh cyn prynu offer er mwyn sicrhau bod yr offer yn addas i'r pwrpas a byddai cynllunio prosiect yn helpu i sicrhau bod adrannau yn mynd trwy'r sianelau cywir, unwaith yn rhagor, gyda chydweithredu mewn golwg.
- Eglurodd y swyddog beth oedd strwythurau'r Grwp Strategaeth TGCh a'r Grwp Defnyddiwr TG;
- Cydnabuwyd bod cyllid digonol yn bwysig er mwyn datblygu ac ehangu'r gwasanaeth presennol;
- Trafodwyd y mater o droedbrint carbon - cadarnhaodd y Swyddog bod Swyddog Ynni a Chymhorthydd wedi'u penodi ac er nad oes unrhyw dargedau penodol ar hyn o bryd, roedd materion sylfaenol fel arbedwyr sgrîn, diffoddwyr, aerdymheru ac ati yn derbyn sylw.

Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r Swyddog am ei ymateb gan roi sicrwydd y byddai'r Pwyllgor yn fwy na pharod i helpu'r adran TGCh mewn unrhyw ffordd bosibl er mwyn gwella'r gwasanaeth.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r Strategaeth a nodi'r cynnwys.**

**6 HYFFORDDIANT AR Y GYLLIDEB**

Cyflwynwyd - copi o'r "Llawlyfr i Gynghorwyr - Sgriwtineiddio Cyllid" a gyhoeddwyd yn wreiddiol gan yr Adran Datblygu a Gwella Llywodraeth Leol, a'i ddiweddaru yn dilyn ymgynghori gyda Tim Buckle o CLlLC.

Pwysleisiodd y Swyddog Sgriwtini bod Sgriwtini Ariannol yn rhan bwysig o swyddogaeth y Pwyllgor hwn o safbwynt Fforddiadwyaeth / Blaenoriaethu a Gwerth am Arian. Roedd sgriwtini effeithiol yn cynnwys bod yn agored, yn dryloyw ac yn onest. Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini y bydd adroddiadau misol yn cael eu paratoi yn y dyfodol a phwysleisiodd ei bod yn bwysig deall y data sylfaenol a cheisio nodi gwybodaeth na fyddai'r Pwyllgor Gwaith, efallai, wedi'i ystyried.

**PENDERFYNWYD derbyn y Llawlyfr mewn paratoad ar gyfer yr Hyfforddiant Sgriwtini Ariannol fydd yn cael ei drefnu ar gyfer mis Ionawr 2011.**

**7 RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL - PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd - copi drafft o Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'r dyfodol.

**PENDERFYNWYD derbyn y fersiwn ddrafft yn amodol ar gynnwys y pedwar mater canlynol:**

**(i) Monitro Cytundebau Canlyniadau;**
**(ii) Rheoli Risg;**
**(iii) Cyflwyniad ar wella arbedion gan Gyngor Sir Castell-nedd Port Talbot;**
**(iv) Adolygiad Cydweithwyr TG.**

**8 ADRODDIAD CWYNION 2010/11**

Derbyniwyd a nodwyd er gwybodaeth - adroddiadau mewn perthynas â Pherfformiad y Cyngor o safbwynt Cwynion.

**9 UNRHYW FATER ARALL**

Cyfeiriwyd at fater yn ymwneud â Grant Adeiladu yng Nghaergybi ac at ddogfennau a welwyd gan Aelod o'r Pwyllgor hwn.  Cytunwyd mai mater i'r Pwyllgor Archwilio oedd hwn.

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**